

# BISGEDI DARNAU SIOCLED A MINTYS FFRES

GROWING THE FUTURE
TYFU'R DYFODOL

Rhowch gynnig ar y rysait hon o siocled a mintys ffres. Wrth wneud y bisgedi gyda mintys ffres, mae'r blas yn fwy ffres na bisgedi siocled a mintys arferol. Mae sawr ysgafn llysieuol iddyn nhw am nad yw mintys ffres yn cynnwys yr elfen feddygol sydd mewn trwyth mintys.

**Cynhwysion:**

- 110g menyn heb halen
- Dyrnaid o ddail mintys ffres
- 130g siwgwr coch tywyll trwchus
- ½ llwy fwrdd o drwyth fanila
- 1 wy mawr
- ½ llwy de o halen
- ½ llwy de o soda pobi
- ½ llwy de o bowdwr codi
- 175g blawd plaen
- 225g darnau siocled chwerwfelys

**Dull:**

1. Torrwch y menyn yn ddarnau bach a thorrwch y mintys ffres yn fras. Rhowch y menyn a'r mintys mewn sosban dros wres canolig a'i goginio gan ei droi drwy'r amser nes iddo droi'n frown. Rhowch hwn o'r neilltu am hanner awr (ond peidiwch â gadael iddo galedu).
2. Arllwyswch y menyn drwy ogor fân i dynnu'r darnau mintys allan. Defnyddiwch lwy bren i wasgu'r mintys a gwasgu unrhyw sudd yn ôl i'r menyn.
3. Yn y fowlen mewn cymysgwr bwyd sydd â rhodl ynddo, cymysgwch y menyn mintys a'r siwgwr coch, yna ychwanegwch y fanila a'r wy. Crafwch y fowlen yn lân.
4. Mewn bowlen fawr, cymysgwch y cynhwysion sych. Yna yn y cymysgwr yn araf ychwanegwch y cynhwysion sych hyn yn raddol.
5. Plygwch y darnau siocled i mewn, gorchuddiwch y cyfan a rhoi'r toes yn yr oergell am o leiaf awr.
6. Cynheswch y ffwrn i 190°C yn barod. Codwch tua ¼ llond cwpan o'r toes am bob bisgeden a'u gosod ar hambwrdd pobi.
7. Pobwch am 10-12 munud, nes bydd yr ymylon wedi pobi a'r canol yn dal i edrych fel toes. Gadewch iddyn nhw oeri ar yr hambwrdd am o leiaf 10 munud cyn eu codi allan.

## TYFU'R DYFODOL

Mae prosiect Tyfu'r Dyfodol yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn brosiect pum mlynedd o hyd i ddathlu garddwriaeth Cymru, planhigion ar gyfer pryfed peillio, i amddiffyn bywyd gwyllt, ac i bwysleisio holl fanteision tyfu planhigion - i'w bwyta, i roi hwyl inni ac i gyfrannu at ein lles a'n hiechyd.

P'un a ydych yn arddiwr profiadol, yn dyfwr dibrofiad neu'n ddarpar wenynwr – rydym am helpu i roi hyfforddiant, gwybodaeth a chymorth i chi. Am fwy o wybodaeth ar ddigwyddiadau a chyrsiau'r prosiect, ewch i **garddfotaneg.cymru/gwyddoniaeth/tyfur-dyfodol** os gwelwch yn dda.

Mae'r prosiect hwn wedi derbyn cyllid trwy Raglen Datblygu Wledig 2014-2020 – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Ardaloedd Gwledig, a Llywodraeth Cymru.

National Botanic Garden of Wales
Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

GROWING THE FUTURE
TYFU'R DYFODOL

ACHUB PEILLWYR
SAVING POLLINATORS

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government